# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion o'r Cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2020 fel cofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle**

Derbyniwyd 5 cais am y swydd.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ddadansoddiad manwl o'r ceisiadau a gafwyd i'r Pwyllgor, gyda chefnogaeth y Rheolwr Adnoddau Dynol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **peidio â rhoi'r ymgeiswyr ymlaen i gam nesaf y broses recriwtio;**
- **bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Ionawr, 2021 ar yr opsiynau recriwtio ar gyfer llenwi'r swydd.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**